



Annwyl Gwsmer

### Ailagor Gwasanaeth

**Swyddfa Bost Aber-carn  
21 Y Stryd Fawr, Aber-carn, Casnewydd, NP11 5GQ**

Rydym wrth ein bodd yn rhoi gwybod i chi y byddwn yn adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i Swyddfa Bost Aber-carn ddydd Llun 15 Tachwedd 2024 am 09:00. Caeodd y gangen ddydd Iau 4 Gorffennaf 2024 oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd.

Bydd y gwasanaeth yn cael ei redeg o'r un adeilad a bydd yn cynnig dewis o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post. Mae'r manylion llawn am y gwasanaeth newydd ar ddiwedd y llythyr hwn.

Gwn y bydd y gymuned leol yn ymuno â mi yn croesawu'r newyddion da a gobeithio y byddwch chi a'n cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol.

Os bydd rhaid newid y dyddiad agor am resymau annisgwyl, bydd posterï'n cael eu gosod er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Mae'r cyfathrebiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae copi ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

*Santosh Samudrala*

**Santosh Samudrala  
Rheolwr Newidiadau Ardal**

Sut i gysylltu â ni:  
[comments@postoffice.co.uk](mailto:comments@postoffice.co.uk)  
[postofficeviews.co.uk](http://postofficeviews.co.uk)  
FREEPOST Your Comments

## Manylion am y Gwasanaeth Newydd

Mae yna adegau o bosibl pan fydd rhaid newid oriau agor cangen. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau, gan gynnwys gwasanaethau Swyddfa'r Post eraill yn yr ardal, ar ein gwefan [www.postoffice.co.uk/branch-finder](http://www.postoffice.co.uk/branch-finder)

Swyddfa Bost Aber-carn		Gwasanaethau
21 Y Stryd Fawr Aber-carn Casnewydd NP11 5GQ		Bydd yr un cynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd.
Yr oriau agor newydd		Mynediad
Llun – Gwen	09:00 – 13:00 14:00 – 17:30	Mae gan y gangen hon ddrws llydan a llawr gwastad wrth y fynedfa.
Sad – Sul	Ar Gau	

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).

## **Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - [postofficeviewsco.uk](http://postofficeviewsco.uk)

**Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.**

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau nas cynlluniwyd<sup>1</sup>/ ymyriad a gynlluniwyd i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â chau blaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned
- Masnachfreinio cangen a Reolir yn Uniongyrchol yn ei safle cyfredol lle nad oes unrhyw newidiadau i'r mynediad i fan gwasanaeth Swyddfa'r Post.

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan geisio rhoi pedair wythnos o rybudd. Efallai na fydd modd rhoi pedair wythnos o rybudd ar gyfer newid nas cynlluniwyd ac, os felly, rhoddwn rybudd cyn gynted ag y medrwn. Ar gyfer pob cau byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post agosaf a manylion am ein llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol sydd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth Lleol, Age Uk, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Hefyd, anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

**Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

**Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyr yr Egwyddorion hyn:**

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i weld a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

**Postofficeviews.co.uk**

**[Comments@postoffice.co.uk](mailto:Comments@postoffice.co.uk)**

**FREEPOST Your Comments**

**Ffoniwch: 03452 66 01 15**

**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

<sup>1</sup> Os nad oedd y cau wedi ei gynllunio, adolygir y gwasanaeth a ddarperir yn yr ardal, ar sail y defnydd cyfredol, modelu ac argaeledd unrhyw fodel gwasanaeth addas arall. Gwneir penderfyniad masnachol os ceisir cael gwasanaeth yn lle'r un a gafodd ei gau ac ni fydd yn rhwym wrth ymgynghoriad cyhoeddus.